# Eisteddfod yr Urdd

Urdd 100 1922 - 2022

Sir Ddinbych
30 Mai - 4 Mehefin 2022

# Arlwywyr

Llyfryn Gwybodaeth

EISTEDDFOD GENEDLAETHOL YR URDD
Mai 30 – Mehefin 4, 2022

GWYBODAETH ARLWYO 2022

Cynhelir Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd 2020 ar dir Fferm Kilford ger tref Dinbych
**Côd Post: LL16 4ER**

Wedi dwy flynedd o hoe, rydym wrth ein bodd i fod yn paratoi i fod nol mewn cae ar gyfer Eisteddfod yr Urdd Sir Ddinbych ar ddiwedd mis Mai eleni. Mae'r wybodaeth a'r ffigyrau canlynol yn cael eu cynnwys i'ch cynorthwyo wrth baratoi eich cynnig.

- **MYNEDIAD AM DDIM I FAES YR EISTEDDFOD**
  Yn dilyn derbyn cyllid gan Llywodraeth Cymru bydd holl docynnau yr Eisteddfod AM DDIM eleni. Rydym yn rhagweld y bydd y cynnig hwn yn cael effaith sylweddol ar nifer yr ymwelwyr, a'r arian bydd yn cael ei wario ar y Maes.

- **DATHLIADAU CANMLWYDDIANT YR URDD**
  Fel rhan o ddathliadau Canmlwyddiant yr Urdd, byddwn yn trawsnewid y Maes ar ddiwedd yr wythnos gan gynnal Gŵyl o fewn Gŵyl i ddathlu. Bydd Gŵyl Triban yn cael ei gynnal o Nos Iau, Mehefin 2 – Dydd Sadwrn, Mehefin 4 gan ddenu miloedd o ymwelwyr i'r Maes ar gyfer rhaglen o fandiau byw, bwyd, diod, sesiynau comedi, llenyddiaeth a llawer mwy! Bydd mynediad i'r Ŵyl am ddim gan gynyddu niferoedd sy'n mynychu ar ddiwedd yr wythnos i gyd-fynd gyda'r ddau ddiwrnod Gŵyl y Banc ychwanegol.

- **PENTREF BWYD**
  Ein bwriad yw datblygu a ehangu ar drefniadau Eisteddfodau'r gorffennol drwy greu ardal fwyd newydd (gyda chysgod) ar y Maes. Bydd yr ardal newydd awyr agored hon yn golygu **na fydd Caffi Mr Urdd** ar faes Eisteddfod yr Urdd Sir Ddinbych ac o'r herwydd byddwn yn edrych i gynnig mwy o safleoedd i arlwywyr i ddiwallu'r angen. Bydd y datblygiadau eleni yn cynnwys ehangu'r ddarpariaeth ar gyfer diodydd a bydd Bar ar gael ar y Maes o Ddydd Iau tan Dydd Sadwrn. Gan y bydd mwy o ymwelwyr ar y Maes, bydd oriau agor y Pentref Bwyd yn ymestyn ar y penwythnos olaf.

- **MAES DI-BLASTIC**
  Ni chaniateir gwerthu na chynnig plastig un defnydd i gwsmeriaid ar Faes yr Eisteddfod eleni, gan gynnwys poteli diod, cytleri, a deunydd gweini bwyd. Bydd angen i'r holl ddeunydd gweini bwyd fod yn addas i'w ailgylchu.

- Amcan o'r nifer o ymwelwyr (gall y niferoedd amrywio yn ddibynnol ar ffactorau fel y tywydd):

  hyd at **100, 000** o ymwelwyr yn ystod yr wythnos gyda:
  18k - 20k ar ddydd Llun
  18k - 20k ar ddydd Mawrth
  13k -15k ar ddydd Mercher
  10k - 13k ar ddydd Iau
  15k - 17k ar ddydd Gwener
  15k - 17k ar ddydd Sadwrn

- Mae cystadlaethau Dydd Llun/Mawrth ar gyfer plant oedran cynradd felly mae nifer helaeth o deuluoedd gyda phlant oedran cynradd yn bresennol. Ar Ddydd Mercher i Ddydd Sadwrn mae'r cystadlaethau ar gyfer plant a phobl ifanc hyd at 25 oed.

- Dylid nodi'r **Canllawiau Gwastraff Masnachol** yn y pecyn hwn - bydd yn ddisgwyliedig i bob masnachwr gydymffurfio gyda'r canllawiau er mwyn cynorthwyo'r Eisteddfod i leihau'r gwastraff sydd yn mynd i ganolfannau dirlenwi.

- Nid oes modd defnyddio offer trydanol ar y Maes all amharu ar systemau sain yr Eisteddfod.

- Ni chaniateir generaduron petrol ar unrhyw gyfrif.

- Rhaid i chi ein hysbysu os ydych yn bwriadu gosod y cytundebau arlwyo i is-gontractwyr.

- Eich cyfrifoldeb chi yw trosglwyddo unrhyw wybodaeth a manylion cytundebol i is-gontractwyr.

- Wrth ystyried ceisiadau, byddwn yn rhoi pwyslais ar y swm ariannol, ansawdd y cynnyrch, defnydd o'r iaith Gymraeg, bwydlenni creadigol, prisiau rhesymol ac unedau atyniadol.

**Cyfleusterau a ddarperir gan yr Urdd**

- Dŵr (cyflenwad dŵr glan addas i'w yfed)

- Cysylltiad Trydan – uchafswm cyflenwad **2 x 32amp 1 ffas** (Codir tâl ychwanegol am unrhyw ofynion sy'n fwy na hyn)

- Man gwaredu gwastraff canolog.

- Man canolog yn compownd yr Eisteddfod i gadw silindrau nwy yn unol â rheolau Iechyd a Diogelwch.

- Tocynnau mynediad i weithwyr yr unedau arlwyo a man parcio yn y maes parcio cyhoeddus.

- Maes Gwersylla i gontractwyr ac arlwywyr gyda chyfleusterau tai bach a chawodydd. Rhaid archebu safle ymlaen llaw.

**Cyfleusterau i gael eu darparu gan yr arlwywyr llwyddiannus.**

- Unedau arlwyo gydag ardaloedd paratoi, storio a gweini bwyd yn ôl yr angen sydd yn cydymffurfio â'r rheolau Iechyd a Diogelwch a Glendid Bwyd cyfredol.

- Unedau paratoi (e.e. cegin symudol) sy'n cyd-fynd â'r rheolau Iechyd a Diogelwch a Glendid Bwyd cyfredol.

- Unedau storio bwyd addas i'r lleoliad a'r math o fwyd fydd yn cael eu storio.

**Bwydlen**

- Gan bod yr Eisteddfod yn ŵyl i bobl ifanc a theuluoedd uwchlaw popeth arall, dylid cynnig bwydlen i blant, prydau llysieuol a dietegol ble mae'n bosib.

- Yn 2022 bydd yr Urdd yn treialu cynllun 'Pryd Pum Punt' ble byddwn yn cynnig i'n arlwywyr gynnwys darpariaeth bwyd / pryd o fwyd am £5 ar eu bwydlen, fel bod darpariaeth fforddiadwy i'n cwsmeriaid ym mhob ardal o'r Maes. Bydd yr Urdd yn hyrwyddo pob uned sy'n cymryd rhan yn y cynllun. Gall hyn gynnwys, er enghraifft, rôl frecwast a diod twym, pryd poeth, brechdan a diod neu pecyn bwyd. Bydd y Cwmni yn cytuno ar eu darpariaeth 'Pryd Pum Punt' ymlaen llaw gyda'r cyfarwyddwr a threfnydd yr Eisteddfod, a gellir cynnig nifer o opsiynau gwahanol o fewn eu bwydlen 'Pryd Pum Punt' pe dymunir. Os hoffech gymryd rhan yn y cynllun, nodwch eich darpariaeth ar eich bwydlen enghreifftiol gyda'r ffurflen gais.

- Yn 2022 bydd staff yr Urdd, stiwardiaid a beirniaid yn derbyn tocyn bwyd gwerth £7.50 i'w ddefnyddio ar y Maes. Gofynnwn i'r Cwmni gynnig darpariaeth bwyd poeth gwerth £7.50 (yn cynnwys TAW), a bydd y dewisiadau i'w cytuno o flaen llaw gyda'r cyfarwyddwr a threfnydd yr Eisteddfod. Bydd y tocynnau hyn i'w defnyddio ar draws holl unedau bwyd y Maes.

**Dalier Sylw**:

- Mae hawl gan unedau arlwyo i werthu diodydd twym 'sylfaenol', ond gan bod cytundeb penodol ar gyfer lolfa goffi ac uned goffi, ni chaniateir i arlwywyr farchnata na gwerthu diodydd poeth arbenigol. Cadwch hyn mewn cof wrth benderfynu ar eich cynnig tendr.

- Nid oes cyfleusterau casglu dŵr budr ar Faes yr Eisteddfod ac felly fe fydd rhaid i'r unedwr gasglu unrhyw wastraff dŵr o'r unedau uchod mewn tanciau pwrpasol wrth ochr yr uned sydd yn creu'r gwastraff. Ni chaniateir unrhyw dyllu i gladdu tanciau na phibellau o dan yr wyneb.

- Mae'n hanfodol bod staff gweini sydd yn rhugl yn yr iaith Gymraeg ar gael i ddelio gyda chwsmeriaid ac wedi derbyn hyfforddiant ar sut i drafod bwyd yn ddiogel a glendid bwyd yn unol â rheolau statudol. Fe fyddai hyfforddiant gofal cwsmer hefyd yn fanteisiol. **Rhaid i'r holl arwyddion fod yn Gymraeg neu yn ddwyieithog gyda blaenoriaeth i'r Gymraeg.**

- Bydd y wybodaeth o'r Ffurflen Tendro gan y cwmnïau llwyddiannus - yn cynnwys enw cofrestredig y cwmni ac enw'r Awdurdod Lleol sydd wedi archwilio'r unedau bwyd - yn cael eu trosglwyddo i Adran Iechyd yr Amgylchedd yr awdurdod lleol perthnasol. Bydd yr adran yma yn gwirio'r wybodaeth ac o bosib yn archwilio'r unedau bwyd wrth iddynt gyrraedd y Maes ac yn ystod wythnos yr Eisteddfod.

- Mae gan amryw o awdurdodau lleol bolisi o ganiatáu i arlwywyr fynychu digwyddiadau dim ond os oes ganddynt Sgôr Hylendid Bwyd o 3 neu'n uwch.

- Nodwch y bydd angen talu yn llawn am eich safle **CYN** yr Eisteddfod neu ni chaniateir mynediad i'r Maes (Rhaid talu cyn 20/05/2022)

**Ailgylchu, Plastig, Llestri a Chyllyll a Ffyrc i'w Taflu**

- Ar gyfer prydau 'cymryd i ffwrdd', dylai'r llestri fod o ffynonellau cynaliadwy, ac yn fioddiraddadwy.

- Yn 2022 bydd Eisteddfod yr Urdd yn gwahardd y defnydd o blastig un defnydd, gan gynnwys llestri, cyllyll, ffyrc, a poteli diod plastig. Rhaid i'r Cwmni gadw hyn mewn cof wrth gysidro eu arlwy a'u bwydlen.

- Gobeithiwn bod ein arlwywyr yn rannu'r weledigaeth o ailgylchu a lleihau gwastraff, ac yn mynd i barhau i gydweithio gyda ni a gyda'r contractwyr gwastraff er mwyn gwella'r cyfraddau ailgylchu a lleihau gwastraff.

**Mae Hope Solutions wedi cynnig rhai canllawiau ac awgrymiadau yn barod, fel a ganlyn:**

- Lle bynnag mae'r deunydd gweini i'w daflu, dylid sicrhau eitemau gellir eu compostio (hy dim cynnwys plastig)

- Os ydy'r cyllyll, ffyrc, platiau ac ati yn ddeunydd gellir ei gompostio, rydym yn argymell defnyddio deunydd papur neu gerdyn safonol ar gyfer y deunydd gweini a phren cynaliadwy ar gyfer y cyllyll, ffyrc a llwyau.

- Os yn bosib dylid defnyddio deunydd gweini gellir ei olchi a'i ailddefnyddio e.e. Plastig i'w ailddefnyddio, serameg, metel neu unrhyw ddefnydd cadarn arall gellir ei olchi a'i ailddefnyddio. Nid yw'r awgrym yma yn mynd i fod yn ymarferol ar gyfer pob un o'r arlwywyr.

- O 2022 ymlaen, bwriad yr Urdd yw gwahardd cynnyrch plastig a ddefnyddir unwaith yn unig.

- Gwnewch pob ymdrech i wahanu'r amrywiol ffrydiau gwastraff (yn enwedig gwastraff bwyd) - boed yn wastraff i'w gompostio, i'w ailgylchu, yn wastraff cyffredinol - er mwyn osgoi croes-lygru ac er mwyn cynorthwyo ein contractwyr gwastraff.

Os ydych yn ansicr ynglŷn â lle i waredu unrhyw eitemau, cysylltwch â swyddfa'r Urdd neu gyda'r contractwyr gwastraff ar y safle.

**<u>Canllawiau Gwastraff Masnachol</u>**

**Ni chaiff masnachwyr nac arlwywyr ddefnyddio biniau ailgylchu a gwastraff y cyhoedd er mwyn osgoi gorlenwi biniau ailgylchu cyhoeddus yn rhy sydyn.**

Bydd arlwywyr yn derbyn bagiau ailgylchu a chesglir y gwastraff a gynhyrchir o'r biniau ailgylchu.

### Bagiau Gwastraff Bwyd

- Gwastraff bwyd YN UNIG – dim cig amrwd
- DIM, plastig, metel, olew, platiau, cwpanau a hambyrddau papur, offer bwyta pren neu bolystyren
- Mae'n rhaid mynd â'r defnyddiau hyn i'r man casglu canolog.

### Bagiau Ailgylchu

- Poteli plastig/ cwpanau a chaniau bwyd / diod. Dylech wneud yn siŵr eu bod yn lân ac yn sych cyn eu rhoi yn y bagiau pwrpasol.
- DIM deunydd lapio plastig
- Dylid rhoi bagiau ailgylchu yn y sgip pwrpasol ar ddiwedd pob diwrnod. Lleolir y sgip yn y man casglu canolog.

### Cardfwrdd

- Cywasgwch unrhyw ddeunydd cardfwrdd a'u rhoi yn y sgip gardfwrdd yn y man casglu canolog. PEIDIWCH â rhoi defnyddiau lapio plastig gyda'r cardfwrdd.

**Olew Coginio**

- Cyfrifoldeb yr arlwywr yw gwaredu unrhyw wastraff olew coginio. Os hoffech i gontractwyr rheoli gwastraff wneud hyn ar eich rhan, bydd angen cysylltu gyda Swyddfa'r Eisteddfod.

**Bagiau Du**

- Mae'n rhaid rhoi unrhyw ddefnyddiau na ellir eu rhoi yn y bagiau gwastraff bwyd neu ailgylchu mewn bagiau du a'u gosod yn y sgip gwastraff masnachol yn y man casglu canolog.

Os hoffech drafod y materion yma yn fwy manwl, mae croeso i chi gysylltu â swyddfa'r Urdd.

**Diogelwch Tân**

- Gwaherddir caniau petrol ar Faes yr Eisteddfod heblaw am danwydd petrol tu fewn i danciau pwrpasol mewn cerbydau.
- Ni ddylid gosod unrhyw ddeunydd llosgadwy (e.e. gwellt) ar y Maes ar unrhyw gyfrif.
- Dylai pob uned arlwyo ddarparu'r offer tân canlynol:

| | |
|---|---|
| ➢ Ardal paratoi bwyd – | 1 x 2kg Diffoddwr Powdwr Sych |
| ➢ Ardal coginio – | 1 x 2kg Diffoddwr Powdwr Sych |
| | 1 x 1 medr sgwâr blanced dân (BS 6575:1985) |
| ➢ Ffrio dwfn – | 1 x 9L Diffoddwr ewyn (*foam*) pwrpasol |
| | 1 x 1m² blanced dân ysgafn |

**Nwy (LPG)**

- Dylid sicrhau cyn belled â fo'n bosib bod unrhyw silindrau nwy wedi cael eu lleoli yn yr awyr agored.
- Dim ond silindrau gyda "*pressure relief valve*" dylid cael eu defnyddio a rhaid sicrhau bod y silindrau wedi eu gosod yn gadarn ac yn unionsyth ac wedi gwahanu o'r cyhoedd er mwyn osgoi unrhyw ymyrraeth neu ddamwain.
- Dylai pob potel LPG gael ei gysylltu wrth ymyl yr uned arlwyo.
- Dylid sicrhau bod unrhyw silindrau LPG nad ydynt yn cael eu defnyddio wedi cael eu storio yn yr awyr agored ac yn ddigon pell o ffynonellau tân. Dylid gosod arwyddion priodol i nodi'r perygl.
- Dylid sicrhau cyflenwad digonol o silindrau nwy am yr wythnos heb fod yn fwy na 200kg. Bydd gan yr Urdd gawell pwrpasol i storio unrhyw silindrau nwy yn ddiogel.

**Ni chaniateir alcohol ar y Maes i'w werthu, fel gwobr raffl nac at ddefnydd personol. Bydd trwydded i werthu alcohol gyda bwyd mewn bwyty trwyddedig ar y Maes, ond ni chaniateir gwerthu alcohol i yfed mewn unrhyw fan arall ar y Maes. Bydd bar ar y Maes ar y penwythnos olaf fel rhan o Ŵyl Triban.**

Gobaith yr Urdd yw y bydd arlwywyr yn defnyddio cymaint o gynnyrch Masnach Deg â phosib. Mae'r Urdd hefyd yn awyddus bod yr unedau arlwyo yn defnyddio cymaint o gynnyrch o Gymru a phosib ac hefyd yn rhoi pwyslais ar 'fwyta'n iach'. Yn ogystal Castell Howell yw un o brif gefnogwyr yr Eisteddfod ac felly mae'n ddisgwyliedig i'r arlwywyr ddefnyddio Castell Howell fel cyflenwr os yn addas.

Mae'r Urdd yn cadw'r hawl i ofyn i arlwywyr am dystiolaeth pam nad ydynt yn defnyddio Castell Howell fel cyflenwr.

Nid oes hawl gan unrhyw un o'r unedau arlwyo symudol werthu hufen iâ gan fod proses tendro ar wahân. Os ydych am gynnig am y cytundeb i werthi hufen iâ cysylltwch â Steffan Prys Roberts yn Swyddfa'r Eisteddfod er mwyn cael y wybodaeth berthnasol - steffanprys@urdd.org

Manylion Cyswllt:

**Steffan Prys Roberts**
Eisteddfod yr Urdd
Gwersyll yr Urdd Glan-llyn
Llanuwchllyn
Y Bala
Gwynedd
LL23 7ST
ebost: steffanprys@urdd.org
Ffôn: 01678 541014